Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Bwletin GML Gyrfa Cymru: Tachwedd 2025

Rhifyn 18: Cyhoeddwyd Tachwedd 2025
Dyddiad y rhifyn nesaf: Mai 2025



Gyrfa Cymru
Careers Wales


## 1. Cynnwys

1. Cynnwys ........ 2
2. Penawdau allweddol i Gymru yn y rhifyn hwn ........ 3
3. Tueddiadau Postio Swyddi yng Nghymru ........ 4
4. Tueddiadau Recriwtio yn ôl Galwedigaeth ........ 5
5. Diswyddiadau ........ 8
6. Cyflogaeth, Diweithdra ac Anweithgarwch Economaidd ........ 9
7. Diweithdra Ieuenctid a Phobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant (NEET) ........ 13
8. Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ........ 14
9. Nodwedd: Yr Economi Werdd yng Nghymru ........ 15
10. Cefnogaeth, gwybodaeth ac ystadegau ........ 15

***Amlder Cyhoeddi: Mae Bwletin GML Gyrfa Cymru bellach yn cael ei gyhoeddi bob 6 mis (yn lle bob 4 mis fel o'r blaen).***

***Cymhariaethau Data: Mae newidiadau yn y ffordd y mae ystadegau swyddogol yn cael eu casglu yn golygu na ddylid cymharu data cyfredol â rhifynnau blaenorol.***

## 2. Penawdau allweddol i Gymru yn y rhifyn hwn



## 3. Tueddiadau Postio Swyddi yng Nghymru


***NODER: Mae amrywiadau misol mewn postiadau swyddi ar-lein yn parhau i roi syniad bras ond ymatebol inni o'r farchnad swyddi yng Nghymru. Mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r niferoedd absoliwt gan eu bod yn rhoi ciplun yn unig o'r darlun recriwtio cyfan.***

### Tueddiadau recriwtio yng Nghymru

Mae Siart Bar 1 (isod) yn dangos, bod postiadau swyddi ar-lein misol yng Nghymru wedi bod yn cynyddu ychydig ers eu lefel isaf yn y 12 mis diwethaf a welwyd ym mis Rhagfyr 2024, gyda chyfartaledd o ~40,663 o bostiadau misol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae hyn yn dilyn patrwm tebyg i ddata postiadau swyddi ar gyfer y DU, gan awgrymu bod y tueddiadau yng Nghymru yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd ar draws y DU.

**Siart Bar 1: Postiadau swyddi ar-lein misol yng Nghymru o fis Tachwedd 2024 i fis Hydref 2025**




**Ffynhonnell: Dadansoddeg Postiadau Swyddi Lightcast™ Tachwedd 2025**

Atodiad 1: Tabl Data Atodol

Dwyster Postio yw cyfanswm nifer y swyddi ar gyfer pob swydd wag unigryw. Mae'r dwysedd cyfartalog o 2:1 ar gyfer Hydref 2025 yn golygu bod pob swydd newydd a bostiwyd ym mis Hydref yn cael ei hysbysebu mewn 2 gyfrwng. Byddai galwedigaeth benodol gyda dwyster postio yn uwch na'r cyfartaledd o 2:1 ar gyfer mis Hydref yn awgrymu bod cyflogwyr yn rhoi mwy o ymdrech i lenwi'r swydd wag honno.

## 4. Tueddiadau Recriwtio yn ôl Galwedigaeth

***NODER: Mae'r data yma'n cynnwys galwedigaethau gyda mwy na 100 o hysbysebion swyddi wedi'u postio rhwng mis Chwefror 2025 a mis Hydref 2025. Mae swyddi â llai na 100 o hysbysebion yn cael eu dileu i adlewyrchu tuedd fwy cywir yn gyffredinol.***


### Yr 20 galwedigaeth uchaf a hysbysebwyd yn y cyfnod o fis Chwefror 2025 i fis Hydref 2025

Mae Siart Bar 2 isod yn dangos mai Gweithwyr Gofal a Gofalyddion Cartref sydd yn parhau i fod y brif alwedigaeth gyda'r cyfanswm uchaf o bostiadau swyddi ar-lein. Nifer y postiadau swyddi ar gyfer Gweithwyr Gofal a Gofalyddion Cartref yn y cyfnod adrodd hwn oedd 7,459.

Glanhawyr a Glanhawyr Domestig sydd â'r dwyster postio mwyaf o blith yr 20 galwedigaeth uchaf a hysbysebir, gyda chyfartaledd o 7:1 (er mai 2:1 oedd y cyfartaledd cenedlaethol), sy'n awgrymu ei bod yn anodd llenwi'r swyddi gwag hyn.

Mae'r naw galwedigaeth uchaf yng Nghymru gyda'r nifer fwyaf o bostiadau swyddi ar-lein yn parhau heb newid ers y Bwletin blaenorol.

**Siart Bar 2: Yr 20 galwedigaeth uchaf a hysbysebwyd yn y cyfnod o fis Chwefror 2025 i fis Hydref 2025 yng Nghymru**




**Ffynhonnell: Dadansoddeg Postiadau Swyddi Lightcast™, Hydref 2025** Atodiad 2: Tabl Data Cysylltiedig

## Galwedigaethau gyda galw cynyddol yn y cyfnod o fis Chwefror 2025 hyd at fis Hydref 2025


Siart Bar 3 yn dangos bod y cynnydd canrannol uchaf yn y galw am Awduron, Ysgrifenwyr a Chyfieithwyr sef 95%. Mae hyn yn cynrychioli 349 o hysbysebion swyddi dros 9 mis ledled Cymru, sy'n awgrymu pwysau recriwtio parhaus a bylchau sgiliau posibl yn y maes penodol hwn. Gwelir cynnydd mwy nodedig o ran niferoedd mewn Rheolyddion Adnoddau Dynol, a gododd o ~296 o bostiadau (36%) i gyfanswm o 1,123. Mae'r swmp yma'n awgrymu galw sylweddol yn y farchnad a heriau posibl wrth ddiwallu anghenion recriwtio.

Bu cynnydd sydyn yn nifer y swyddi a hysbysebwyd am Awduron, Ysgrifenwyr a Chyfieithwyr ym mis Hydref 2025, gan gynyddu o gyfartaledd o 48 o swyddi a hysbysebwyd bob mis dros gyfnod o 6 mis i gyfanswm o 146 ym mis Hydref yn unig. Roedd y nifer uchaf o bostiadau swyddi ym mis Hydref gan gwmnïau gwasanaethau iaith, y GIG a recriwtwyr y llywodraeth. Yn ôl adroddiad The Translation Market in 2025, mae cynnydd byd-eang yn yr angen am gyfieithwyr ac awduron cynnwys wedi'i yrru gan gynnydd mewn cynnwys amlgyfrwng, tueddiadau digidol mewn cyhoeddi a gofynion sicrhau ansawdd cyfieithu awtomatig neu ddeallusrwydd artiffisial.

Mae'r data hefyd yn tynnu sylw at gynnydd yn y galw o fewn y sector Adeiladu ac Amgylchedd Adeiledig, a ddangosir gan gynnydd ar gyfer Technolegyddion Pensaernïol (+81%, ~266 o swyddi newydd) a Goruchwylyddion Adeiladu (+38%, ~246 o swyddi newydd). Gwelwyd twf hefyd mewn rolau technegol cefnogol, gan gynnwys Technegyddion CAD (+33%, ~139 o swyddi newydd) a Phenseiri (+42%, ~53 o swyddi newydd)

Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio cynnydd yn y galw. Mae'r cynnydd a'r gostyngiadau yn y galw dros y cyfnod o 9 mis yn rhoi ciplun o'r gweithgarwch a gallant adlewyrchu tueddiadau tymhorol a rhanbarthol. Dylid nodi hefyd nad yw newid canrannol uchel o reidrwydd yn golygu'r nifer mwyaf o swyddi gwag.

### Siart Bar 3: Yr 20 galwedigaeth uchaf gyda'r cynnydd canrannol mwyaf mewn Postiadau Swyddi Unigryw a hysbysebwyd yn y cyfnod o fis Chwefror 2025 hyd at fis Hydref 2025 yng Nghymru




Ffynhonnell: Dadansoddeg Postio Swyddi Lightcast™ Tachwedd 2025

Atodiad 3: Tabl Data Cysylltiedig

## Galwedigaethau gyda gostyngiad yn y galw yn y cyfnod o fis Chwefror 2025 hyd at fis Hydref 2025


Siart Bar 4 isod yn dangos y galwedigaethau sydd â'r canran mwyaf o ostyngiad mewn postiadau swyddi rhwng mis Chwefror 2025 a mis Hydref 2025. Dylid defnyddio gofal tebyg i ddehongli galwedigaethau sydd â gostyngiad yn y galw; ciplun yw hwn o'r cyfnod 9 mis, a gall gostyngiadau canrannol mawr weithiau adlewyrchu niferoedd absoliwt isel.

Mae'r galwedigaethau â'r gostyngiad canrannol mwyaf mewn swyddi ar gyfer y cyfnod hwn o'i gymharu â'r un blaenorol yn cynnwys:

- Gweithredyddion Dosbarthu Nwyddau (-60%, gostyngiad o ~171 mewn postiadau swyddi)
- Marsianyddion (-40%, gostyngiad o ~ 246 mewn postiadau swyddi)
- Therapyddion Lleferydd ac Iaith (-33%, gostyngiad o ~87 mewn postiadau swyddi)

Mae'r data'n dangos bod lleihad cyffredinol mewn rolau gofal iechyd gweithredol a chymorth gwyddonol, gyda gostyngiadau cyffredinol i'w gweld mewn Technegyddion Labordy (-31%, ~101 yn llai o bostiadau), Seicolegwyr Clinigol (-25%, ~41 yn llai o bostiadau), Technegyddion Fferyllol (-18%, ~112 yn llai o bostiadau), a Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig (-17%, ~72 yn llai o bostiadau).

### Siart Bar 4: Yr 20 galwedigaeth uchaf gyda'r gostyngiad canrannol mwyaf mewn Postiadau Swyddi Unigryw a hysbysebwyd yn y cyfnod o fis Chwefror 2025 i fis Hydref 2025 yng Nghymru




Ffynhonnell: Dadansoddeg Postiadau Swyddi Lightcast™, Tachwedd 2025

Atodiad 4: Tabl Data Cysylltiedig

## 5. Diswyddiadau

- Mae ffigurau diswyddo Cymru yn seiliedig ar faint sampl bach ac felly maen nhw'n gyfnewidiol.
- Mae bylchau mewn data wedi bod yn digwydd yn natganiadau ystadegol Cymru ers mis Ebrill 2022.
- Mae'r holl ddiswyddiadau sy'n ymwneud â llai na 3 busnes yn cael eu hatal gan y SYG. Mae hyn wedi arwain at amcangyfrifon llai manwl gywir a bylchau yn y data ar gyfer Cymru.
- Mae tueddiadau diswyddo ar gyfer Cymru fel sydd wedi'u hadrodd mewn Bwletinau GML blaenorol ar gael yn Atodiad 5: Tabl Data Cysylltiedig
- Mae'r datganiad diweddaraf gan y SYG wedi cyhoeddi data ar gyfer Cymru am y 3 chyfnod ystadegol rhwng Mai 2025 a Medi 2025.
- Mae lefel diswyddiadau'r DU (nifer gwirioneddol y diswyddiadau) yn llawer uwch nag yng Nghymru, ond yn gyffredinol, mae'r gyfradd diswyddo, o'i chymharu â'r DU, ychydig yn uwch i Gymru.
- Y gyfradd diswyddiadau yw nifer y diswyddiadau fesul 1,000 o weithwyr. Mae'n ddefnyddiol ar gyfer cymharu risg neu ddwyster ar draws rhanbarthau.
- Mae'r DU a Chymru ill dau yn dangos tuedd ar i fyny mewn cyfraddau diswyddiadau dros y 3 mis diwethaf.
- Mae modd gweld dadansoddiad llawn y Deyrnas Unedig yn natganiad SYG, Tachwedd 2025.

## 6. Cyflogaeth, Diweithdra ac Anweithgarwch Economaidd

### Cyflogaeth yng Nghymru a'r DU, 16-64 oed


Mae graff 5 (isod) yn dangos y tueddiadau cyflogaeth diweddaraf yng Nghymru a'r DU o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023 i'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed.

Cynyddodd y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru i uchafbwynt o 74.1% (1,419,500 o bobl) yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2023. Ers hynny mae wedi gostwng i 72.7% yn y data diweddaraf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025, gostyngiad o ryw 16,200 o bobl i gyfanswm o 1,403,300.

Mae cyfradd y DU wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng mis Mehefin 2023 a mis Mehefin 2024, lle mae'r data diweddaraf yn dangos bod y gyfradd cyflogaeth yn 75.4% ym mis Mehefin 2025 (31,631,100 o bobl).

Mae'r bwlch cyflogaeth rhwng Cymru a'r DU wedi cynyddu o 1.6 pwynt canran ym mis Medi 2023 i 2.7 pwynt canran yn y ffigurau diweddaraf.

**Graff 5: Cymharu Cyflogaeth yng Nghymru a'r DU, 16-64 oed**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2025 Atodiad 6: Tabl Data Cysylltiedig

## Diweithdra yng Nghymru a'r DU, 16-64 oed


Mae graff 6 (isod) yn dangos y tueddiadau diweithdra diweddaraf yng Nghymru a'r DU o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023 i'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 i bobl rhwng 16 a 64 oed.

Dylid ystyried newidiadau yn y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru ochr yn ochr â thueddiadau mwy hirdymor lle bo modd oherwydd ansefydlogrwydd y gyfres a meintiau bach y samplau. Mae Cymru'n dangos mwy o amrywiadau dros amser, tra bod y DU yn parhau'n fwy cyson.

Mae'r data diweddaraf ar gyfer Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 yn dangos bod 4.2% (62,000 o bobl) rhwng 16 a 64 oed yn ddi-waith. Mae hyn yn gynnydd nodedig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024), lle'r oedd y gyfradd yn 1% yn is, sef 3.2% (46,900 o bobl).

Yn yr un modd, mae cyfradd y DU hefyd wedi cynyddu, er ar gyfradd mwy araf, gan gyrraedd 4.1% yn y data diweddaraf (1,357,500 o bobl), i fyny o 3.8% (1,238,200 o bobl) yn y flwyddyn flaenorol.

### Graff 6: Cymharu Diweithdra yng Nghymru a'r DU




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2025 Atodiad 6: Tabl Data Cysylltiedig

## Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru, 16-64 oed

***NODER: Mae'r data ar gyfer Cymru bellach ar gael ar gyfer cyfnodau diwedd blwyddyn, yn hytrach nag yn chwarterol fel mewn rhifynnau blaenorol o'r Bwletin GML. Y flwyddyn yn gorffen ym mis Mehefin 2025 yw'r data diweddaraf ar gyfer y cyhoeddiad hwn.***

Mae Economaidd Anweithgar yn diffinio pobl nad ydynt mewn cyflogaeth, nad oeddent yn chwilio am waith o fewn y 4 wythnos diwethaf a/neu na allant ddechrau gweithio o fewn y pythefnos nesaf.

Mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd yn parhau'n uchel yng Nghymru ac yn hanesyddol uwch na chyfartaledd y DU. Ers 2019, mae'r bwlch rhwng y ddwy genedl wedi tyfu, ac mae Cymru'n parhau i ddangos mwy o gyfnewidioldeb na'r duedd gymharol sefydlog yn y DU.


Dylid ystyried newidiadau yn y gyfradd Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru ochr yn ochr â thueddiadau mwy hirdymor lle bo modd oherwydd ansefydlogrwydd y gyfres a meintiau bach y samplau. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae tueddiadau Cymru a'r DU yn dangos newidiadau tebyg.

Mae'r diweddariad diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 ac mae'n adrodd bod tua 352,600 o bobl (ac eithrio myfyrwyr) rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru yn economaidd anweithgar. Mae hyn yn welliant bach (gostyngiad) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Er gwaethaf y gostyngiad hwn, mae hyn yn parhau i fod yn nifer sylweddol o bobl sydd wedi tynnu'n ôl o economi Cymru. Salwch hirdymor yw'r prif ffactor bellach, sydd i gyfrif am tua 159,000 o bobl (34.2% ) sy'n economaidd anweithredol.

Mae Graff 7 (isod) yn dangos cymhariaeth o'r cyfraddau anweithgarwch economaidd blynyddol yng Nghymru â'r DU dros y 6 mlynedd diwethaf, ac eithrio myfyrwyr. Y gyfradd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 ar gyfer Cymru oedd 20.5%, o'i gymharu ag 17.6% ar gyfer y DU.

**Graff 7: Cymharu Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru a'r DU rhwng 16-64 oed, ac eithrio myfyrwyr**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2025 Atodiad 7: Tabl Data Cysylltiedig

Mae ymchwil wedi dangos bod anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yr her gymdeithasol ac economaidd fwyaf yn y farchnad lafur. Gellir adolygu poblogaeth Economaidd Anweithgar Cymru o ran y rhesymau dros anweithgarwch economaidd.

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025, ochr yn ochr â thueddiadau hanesyddol, yn dangos mai'r prif reswm dros anweithgarwch economaidd yng Nghymru (a'r DU) yw salwch hirdymor. Mae'r diweddariad diweddaraf yn nodi bod hyn i gyfrif am 159,183 o bobl yng Nghymru (34.2%).

Mae'r ffynhonnell ddata hon hefyd yn dangos bod 17.5% neu ychydig dros 81,300 o bobl economaidd anweithgar, eisiau swydd.

**Siart Cylch 8: Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru fesul Rheswm, mis Gorffennaf 2024 hyd at fis Mehefin 2025**




Ffynhonnell: SYG, Tachwedd 2025

Atodiad 8: Tabl Data Cysylltiedig

## 7. Diweithdra Ieuenctid a Phobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant (NEET)


***NODER: Oherwydd meintiau samplau llai, mae amcangyfrifon pobl nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) gan Stats Cymru bellach yn cynnwys oedrannau 16–24 fel un grŵp, yn hytrach na'r ddau grŵp oedran 16–18 a 19–24 ar wahân, fel mewn rhifynnau blaenorol o'r Bwletin GML.***

Mae Graff 9 (isod) yn dangos y tueddiadau diweddaraf ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed a adroddwyd fel NEET (nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant) yng Nghymru, yn seiliedig ar ystadegau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS).

Mae'r data diweddaraf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 yn dangos bod cyfradd y bobl nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed yng Nghymru wedi codi i 15.1%, sy'n cynrychioli tua 50,700 o unigolion. Mae hyn yn dangos cynnydd sylweddol o'r isafswm diweddar o 10.8% a gofnodwyd ddiwedd 2024, sy'n dynodi cyfnewidioldeb newydd unwaith eto yn y gyfres hon.

Mae hyn yn nifer sylweddol o bobl ifanc a gweithlu posibl nad ydynt yn cyfrannu at economi Cymru. Mae pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant hefyd i gyfrif am gyfran o'r boblogaeth economaidd anweithgar.

**Graff 9: Cymhariaeth o Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant (NEET) yn y grwp oedran 16-24**




**Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Hydref 2025** **Atodiad 9: Tabl Data Cysylltiedig**

***Noder: Mae'r ystadegau NEET yn seiliedig ar faint sampl cyfyngedig ac maen nhw'n cael eu categoreiddio fel rhai o ansawdd isel.***

## 8. Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

**Dysgwch am y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr ar draws rhanbarthau Cymru**

[Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru]

[Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru]

[Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-Orllewin Cymru]

[Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Prifddinas Caerdydd]




Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth, dolenni a data yn ymwneud â diwydiannau, cyflogaeth a sgiliau ar draws 4 rhanbarth Cymru yn [Swyddi Dyfodol Cymru]



Gogledd Cymru



Canolbarth Cymru




De-orllewin Cymru



De-ddwyrain Cymru

## 9. Nodwedd: Yr Economi Werdd yng Nghymru




## 10. Cefnogaeth, gwybodaeth ac ystadegau

Mae **Cymru'n Gweithio a Gyrfa Cymru** yn cynnig gwybodaeth a chymorth gyda'r

- Gwarant i Bobl Ifanc
- ReAct Plws
- Cyfrifon Dysgu Personol
- Colli Swydd
- Prentisiaethau
- Chwilio am Gwrs
- Cael Swydd
- Bwletin Swydd
- Canfod Cymorth

Mae'r **Adran Gwaith a Phensiynau** yn cynnig gwasanaethau, gan gynnwys

- Gwneud cais am swydd
- Dod o hyd i waith

Mae **Busnes Cymru** yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i fusnesau, gan gynnwys

- Porth Sgiliau ar gyfer Busnes

**Ystadegau'r Farchnad Lafur**

- Swyddi Dyfodol Cymru
- Trosolwg o'r Farchnad Lafur Llywodraeth Cymru: Tachwedd 2025
- Trosolwg o'r Farchnad Lafur, DU | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Tachwedd 2025
- Ystadegau'r Farchnad Lafur, Awst 2025 - Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth
- Economi Cymru mewn rhifau: dangosfwrdd rhyngweithiol | LLYW. CYMRU

***Rydyn ni'n croesawu cwestiynau ac adborth ar y data a'r negeseuon allweddol sydd wedi'u cynnwys mewn Bwletinau GML. Anfonwch unrhyw adborth i*** gwybodaeth@gyrfacymru.llyw.cymru

***Cofrestrwch** i dderbyn y Bwletin GML gan Gyrfa Cymru*